



Y Bont

Cylchgrawn Eglwys Seilo Caernarfon

Mai 2013
Rhifyn 196

www.henaduriaetharfon.org

Oedfaon y Sul

- 5 Mai - Bore: **Gweinidog (Cymun)**
Hwyr: (5pm): **Uno yn Salem - Y Parchg Gwenda Richards**
- 12 Mai - Bore: **Y Parchg Pryderi Llwyd Jones**
Hwyr: **Uno yn Salem—Y Parchg Alan Pickard**
- 19 Mai - Bore: **Gweinidog - Oedfa i ddathlu'r Pentecost**
Hwyr: **Oedfa Cymorth Cristnogol yn Ebeneser**
- 26 Mai - Bore a Hwyr: **Y Parchg John Owen, Rhuthun**
- 2 Mehefin - Bore: **Gweinidog**
Hwyr: **Uno yn Salem**

Wythnos Cymorth Cristnogol 12 - 18 Mai 2013

Digwyddiadau Mis Mai

Nos Fercher 1 Mai (7pm): **Lansio cyfrol Mr T. Meirion Hughes, *Hanesion Tre'r Cofis*** yn Theatr Seilo. Darperir lluniaeth ysgafn. Croeso i bawb.

Dydd Mawrth 7 Mai - **Sasiwn Chwiorydd y Gogledd** yng nghapel Bethesda yr Wyddgrug. Anerchir gan Sarah Morris ac Elinor Owen (2pm) a Carys Humphreys, Taiwan (5.30pm). Trefnir bws (£5) - am fanylion cysyllter â'r Parchg Gwenda Richards

Nos Lun 13 Mai (7pm) - **Cinio diwedd tymor Cymdeithas Chwiorydd Seilo** yn y Clwb Golff. Rhagor o fanylion gan Mrs Annwen Jones (673117)

Nos Fercher 15 Mai (6.30pm) - **Cyngerdd Cymorth Cristnogol yn Theatr Seilo.** Cymerir rhan gan blant ac aelodau eglwysi'r dref. Pris tocyn £3.

Bore Gwener 17 Mai (10am - 12pm) - **Bore Goffi Sefydliad y Galon** yn yr Institiwt.

Taro Mewn - bob bore Mawrth yn Salem (10 -11am)

Y Gell Weddi - bob dydd Iau (10.30am)

Nos Wener 14 Mehefin - Noson Goffi yn y Culfor, Ffordd Bangor

Am Eiliad

Bu mis Ebrill yn gythryblus o ran newyddion. O fewn ychydig oriau i'w gilydd clywyd am ffrwydrad angeuol yn ninas Boston, yr Unol Daliaethau, ac am ddaeargryn fawr yn ardal Sichuan, Tseina. Cafodd pobol eu lladd a'u hanafu, bylchwyd teuluoedd a gadawyd miloedd yn ddigartref. Gweithred fwriadol oedd y naill, digwyddiad naturiol oedd y llall. Does na'r un diwrnod yn mynd heibio heb i ni glywed am drychineb yn rhywle, boed yn ddamwain neu'n weithred fwriadol, ac ar ben y cyfan mae'r rhyfeloedd yn Syria ac Affganistan a manau eraill ar frig y newyddion yn feunyddiol. Yr hyn a glywir yn aml ydi, 'Be ddaw ohonom ni?' neu 'Be fydd y dyfodol i'r genhedlaeth nesa?' Does na fawr yn y newyddion i godi calon, ac mae'n hawdd iawn digalonni a meithrin agwedd synicaidd tuag at y byd.

Rhyw bythefnos yn ôl cefais gyfle i wrando ar y côr enwog 'The Sixteen' yn canu dan arweiniad medrus Harry Christophers. Am ddwyawr, fwy neu lai, medru cau allan y byd a'i broblemau a gadael i leisiau peraidd deunaw o gantorion dawnus fy nhywys i rhyw fyd llesmeiriol, arallfydol bron. Dyna'r canu puraf a pherffeithiaf a glywais erioed, ac roeddwn yn fy seithfed nef. Bûm ar gopa'r mynydd megis, a byddai wedi bod yn braf cael aros yno. Ond mynd adra fu raid, yn ôl i wynebu'r helbulon unwaith eto.

A dyna fu hanes Pedr hefyd wedi iddo fod yng nghwmni Iesu a Moses ac Eleias ar fynydd y Gweddnewidiad. Cymaint oedd ei awydd i aros yno nes iddo awgrymu codi tair pabell, un bob un i Iesu a'r ymwelwyr annisgwyl. Ond ni chafodd ei ddymuniad, a phan

gyrhaeddodd Iesu a'i ffrindia odre'r mynydd, roedd y gweddill o'r disgyblion yn disgwyl amdanynt yn llawn pryder a chynnwrf.

Mae perffeithrwydd yn rinwedd prin mewn byd amherffaith. Ond dyna welwyd ym mherson Crist. Ac er mai bodau amherffaith ydym, ein nôd bob amser ddylai fod ceisio'r perffeithrwydd a welwyd ym mywyd Iesu. 'Gweddiwch fel hyn' meddai Iesu wrth ei ddisgyblion:

"Deled dy Deyrnas, gwneler dy ewyllys; ar y ddaear fel yn y nef"

A phob tro y byddwn yn gweddio'r geiriau hyn, byddwn yn gofyn i Dduw ein cynorthwyo i hyrwyddo'r dydd pryd y gwelir daioni a thrugaredd, cyfiawnder a heddwch yn teyrnasu ar y ddaear. Fel hyn y proffwydodd Eiseia am y perffeithrwydd hwnnw:

"Bydd y fuwch yn pori gyda'r arth, a'r llydnod yn cydorwedd; bydd y llew yn bwyta gwair fel ych. Bydd plentyn sugno yn chwarae wrth dwll yr asb, a baban yn estyn ei law dros ffau'r wiber." (Eiseia 11: 7-8)

Rydym ar drothwy Wythnos Cymorth Cristnogol, a'n baint fel aelodau o eglwys Iesu Grist yw ymroi i'r gwaith, gan wybod y bydd yr arian a gasglwn yn gwneud gwahaniaeth i bobl sy'n dioddef o ganlyniad i dlodi mawr. Dyma ddyfymiad byr o wefan Cymorth Cristnogol:

'Cred Cymorth Cristnogol fod tlodi'n warth yn erbyn dynoliaeth. Gweithiwn tuag at fyd lle bydd tlodi affwysol wedi ei ddileu, a golyga hyn godi pobl allan o newyn. Bydd bron i un biliwn o bobl yn mynd i'r gwely'n newynu heno. Nid chredwn fod yn rhaid i'r byd fod fel hyn.'

Beth amdani eleni? Dowch i ymuno â'r tîm brwdfrydig a gweithgar yn Seilo

fydd yn mynd o dŷ i dŷ rhwng 12-18 Mai. Oherwydd ein nôd ninnau yw hyrwyddo dyfodiad y Deyrnas yn ei chyflawnder.

Gwenda Richards

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddiffuant âg **Emyr Davies**, Awelfor, 85 Cae Gwyn, sydd wedi colli ei fam yn ddiweddar. Dymunwn Dduw yn gymorth ac yn dangnefedd iddo ef a'r teulu yn eu profedigaeth.

Gwaeledd

Bu **Mr Maldwyn Fretwell**, 5 Stâd Glanrafon, Bontnewydd, a **Mr Gwynfor Roberts**, Caerlyr, 12 Ffordd Hampton, yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Mae **Mrs Awen Humphreys**, 24 Heol Elinor, a **Mr Mark Land**, Gorwel Môn, Ffordd Bethel, yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd ac mae **Mrs Llinos Lloyd Jones**, Cynefin, 15 Llys Gwyn, yn Ysbyty Eryri. Treuliodd **Mrs Flo Jones**, Gwelfryn, Rhos Dyffryn, Groeslon, gyfnod byr yn Ysbyty Gwynedd. Da yw deall eu bod yn gwella a dymunwn yn dda iddynt. Mae **Mr Emyr Wyn Jones**, 1 Llys yr Orsedd, erbyn hyn yn treulio ychydig o wythnosau yng nghartref preswyl Plas Gwilym, Pen y Groes. Da yw deall ei fod yntau'n cryfhau.

Bedydd

Yn ystod oedfa'r bore yn Seilo ar 21 Ebrill, bedyddiwyd Math Dafydd, mab Rhodri a Catrin Roberts, Tir Bach, Rhostryfan. Mae Math yn frawd i Begw ac yn wŷr i Richard a Marian Parry Jones. Yn dilyn y brif oedfa cynhaliwyd oedfa fer i fedyddio Anna

Lois, merch fach Osian Wyn Williams a Gwenan Morus Evans, 5 Sgwâr Beulah. Llongyfarchwn y ddau deulu a dymunwn fendith ar eu haelwydydd.

Aelod Newydd

Pleser yw croesawu **Mrs Llinos Ann Roberts** a'i merch **Lliwen**, Penlan, 2 Llys Meirion, yn aelodau o eglwys Seilo. Bedyddiwyd Lliwen yn Seilo y llynedd, ac edrychwn ymlaen at eu cwmni mewn oedfa ac ysgol Sul.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i **Mrs Bessie Hughes**, gweddw'r diweddar Barchedig Gwilym Hughes, ar ddathlu ei phenblwydd yn 103 mlwydd oed yn ddiweddar. Mae hi ar hyn o bryd yng nghartref Gwynfa, Caernarfon. Anfonwn ein cofion cywiraf ati.

Nodyn gan y Trysorydd

Cyfeiriaf at Adroddiad Blynyddol eglwys Seilo 2012 lle mae dau gamgymeriad:

Eurwen Ann Williams, 3 Tyddyn Llwydyn, Parc yr Hendre, wedi cyfrannu £250.00 ac nid £285.00

Brian S. ac Ann Ll. Williams, 29 Tyddyn Llwydyn, Parc yr Hendre, wedi cyfrannu £175.00 ac nid £140.00

Ymddiheuraf ar ran y tîm am y camgymeriad, a charwn ddiolch i bawb ohonoch am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.

Howel Roberts, Trysorydd.

Diolch

Nid ychydig o waith yw paratoi adroddiad blynyddol Seilo, a diolchwn i Howel Roberts, Gwyn Lewis, Glenys Trainor ac i bawb a fu ynglŷn â'r

Adroddiad am eu holl lafur yn sicrhau bod y gwaith yn digwydd yn drylwyr bob blwyddyn. Rydym yn ffodus fod ganddom dîm o wirfoddolwyr sydd mor barod eu cymwynas. Diolch i chi i gyd.

Gwenda Richards

Cymdeithasfa'r Gwanwyn yng Nghapel Bowydd, Blaenau Ffestiniog, 23-24 Ebrill, 2013

Cyfarfu'r Gymdeithasfa yn Eglwys y Bowydd, Blaenau Ffestiniog, a chafwyd yno groeso twymgalon. Darparwyd yn helaeth ar gyfer y cynrychiolwyr, ac roedd yr holl drefniadau yn ardderchog.

Yn y gwasanaeth cyhoeddus nos Fawrth daeth **Mr Huw Tudor**, Pwllheli, i gadair y Llywydd, i ddilyn y **Parchedig Brian Huw Jones**, Prestatyn. Fel Brian, a fagwyd yn Eglwys Beulah, roedd gan Huw hefyd gyswllt agos â Chaernarfon, gan i'w dad, y diweddar Barchedig S.O.Tudor, fod yn weinidog ar eglwys Moreia, a chawsom enghraifft neu ddwy o iaith y Cofis yn ystod ei araith wrth dderbyn y gadair. Un arall o weinidogion y dref a bregethodd yn yr oedfa brynhawn Mercher, sef y **Parchedig Harri Parri**, ac yn ôl y disgwyl cafwyd oedfa ragorol.

Yn yr oedfa brynhawn Mawrth cafwyd coffa am weinidogion a blaenoriaid a fu farw ers cyfarfod diwethaf y Gymdeithasfa, ac yn eu plith roedd **Mr Arthur Rowlands**. Llongyfarchwyd hefyd yn yr oedfa honno nifer o weinidogion a blaenoriaid ar ddathlu deugain, hanner cant, trigain a deg mlynedd a thrigain eu hordeiniad, ac yn eu plith roedd y **Parchedig Trefor Jones**, sydd eleni yn

dathlu trigain mlynedd yn y weinidogaeth. Llongyfarchwn ef yn gynnes iawn.

Etholwyd y **Parchedig Ddr Elwyn Richards**, yn lywydd-etholedig y Gymdeithasfa. Llongyfarchiadau gwresog iddo yntau.

Blodau'r Capel

Dyma'r rhai fydd yn gyfrifol am flodau'r capel yn ystod mis Mai: **Mrs Joan Massey** (5); **Mrs Kitty Roberts** (12); **Mrs Eurwen Ann Williams** (19); y **Parchedig Gwenda Richards** (28).

Hanesion Tre'r Cofis

Dyna deitl llyfr diweddaraf **T. Meirion Hughes** a gyhoeddir gan Wasg y Lolfa. Ceir ynddo gasgliad o erthyglau hynod o ddiddorol am dref Caernarfon. Mae ar werth yn y siopa am £9.95. Mae cyhoeddi'r gyfrol yn gymwynas fawr â'r dre a bydd yn adnodd cyfoethog i unrhyw un sydd am wybod mwy am hen dref y Cofis.

Wythnos Cymorth Cristnogol 12 - 18 Mai

Eleni, ar gyfer Wythnos Cymorth Cristnogol, rydym yn edrych ar esiampl o waith Cymorth Cristnogol mewn tair gwlad, Bolivia, Kenya a Zimbabwe. Mae'r tair esiampl yn dangos bod digon o fwyd ar gael i bawb pe bai newidiadau penodol yn cael eu gwneud.

Mae Wythnos Cymorth Cristnogol yn foment fawr o dystiolaeth, pan fydd eglwysi'n sefyll gyda'i gilydd ac yn codi llais dros fyd gwahanol. Mae'n amser, pan fyddwn yn codi llais gyda gweledigaeth o fyd gwell, a chodi arian i roi'r offer angenrheidiol i gymunedau

tlawd i fedru codi llais drostynt eu hunain.

Mae Seilo erioed wedi cefnogi'r wythnos bwysig hon yn ei chalendr ac yn sicr ni fydd eleni yn eithriad. Apelir arnoch i ymuno â'r tîm i gasglu arian fydd yn gwneud gwahaniaeth i fywydau milynnau o dlodion Bolivia, Kenya a Zimbabwe. Cysylltwch â'r Gweinidog (676435), neu â Mrs. Edwina Morgan (672708).

Apêl am Wirfoddolwyr

Mae angen gwirfoddolwyr i ddsbarthu papuau dyddiol ymhlith cleifion Ysbyty Eryri ar foreau Llun. Golyga fynd i nôl y papruau i SiopTwtl, eu gwerthu yn wardiau'r ysbyty ac yna dychwelyd y gweddill i'r siop. Mae hon yn gymwynas fawr â chleifion yr ysbyty. Nid yw ond yn golygu un bore Llun bob mis. Mae angen tri gwirfoddolwr. Cysyllter â'r Gweinidog (676435)